


Sut i gyrraedd yno:

Trafnidiaeth gyhoeddus: Y Pâl Gwibio yn Hafan Martin a thop y lôn at faes parcio Traeth Marloes (hygyrch i gadeiriau olwyn).

Eich trafndiaeth eich hun: De Sir Benfro, 8 milltir i'r Gorllewin o Aberdaugleddau. Dewch ar heol y B4327. Maes parcio yn Nhraeth Marloes (tâl).



Cyfeirnod grid y man cychwyn: SM779081.

Toiledau: yn Hostel Ieuentid Runwayskiln a Martin's Haven (tymhorol).

Sylwer: mae'r ail a'r drydedd olygfan (wrth ddod o faes parcio Traeth Marloes) ar ochr y giatiau arno i Lwybr yr Arfordir sydd agosaf at y cae. Mae'n bosib mynd arno i Lwybr yr Arfordir, ond mae'n gul ac yn anwastad ac mae'r clogwyni'n uchel ac yn serth.

Penrhyn Marloes

Taith antur: 3.6 i 4.4 milltir (5.8 i 7.1 km).

Cymeriad: golygfeydd gwych o glogwyni ac ynysoedd, ar lwybrau gwastad, glaswelltog yn bennaf.



**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park**



Disgrifiad

Mae'r llwybr yn dilyn llwybrau gwastad, glaswelltog yn bennaf. Ar y prif lwybr at Martin's Haven nid oes unrhyw raddiannau sy'n fwy serth nag 1:12. Mae yna raddiant o 1:10 am 50 metr at yr ail olygfan. Mae'r pellter hiraf yn cynnwys cyfleoedd i fynd oddi ar y prif lwybr at dair golygfan.

Mae'r daith hon yn pasio Pwll Marloes, sef ardal o byllau gwlypdir a chors sy'n bwysig am ei hwyaid ac adar gwyllt eraill. Yn aml, gellir gweld bodau tinwyn a thylluanod

clustiog yn lletya yn y gors.

Ar ôl pasio caer drawiadol o'r Oes Haearn, mae'r daith yn ymuno â Llwyr yr Arfordir. Mae'n aros ychydig tua'r tir o gopa'r clogwyni, ond yn cynnig golygfeydd gwych o'r arfordir ac ynysoedd Sgogwm, Sgomer a Gwales sy'n llawn baw adar, yn y pellter. Mae'r tair yn gartref i gytrefi pwysig o adar y môr yn yr haf. Mae'r daith gerdded yn croesi caeau arfordirol a reolir er mwyn annog y frân goesgoch.

Nid yw'n rhan o'r daith: mae'r llwybr i lawr at olygfan traeth

Marloes, er ei fod yn serth mewn mannau (graddiannau yn fwy serth na 1:12), yn rhydd o risiau. Mae angen mynd i lawr grisiau garw a dros glogfeini a chreigiau i gyrraedd y traeth ei hun.

Cyfarwyddiadau

(Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys ymweld â phob un o'r tair golygfan, gan ddechrau ym maes parcio Traeth Marloes. Os nad ydych am ymweld â'r golygfannau, arhoswch ar y trac llydan.)

Trowch i'r dde allan o'r maes parcio a dilynwch y trac llydan tuag at yr Hostel leuenctid. Wrth y postyn pwyntio, yn union wedi'r Hostel leuenctid, trowch i'r chwith trwy giât a dilynwch y llwybr ar ymyl y cae at yr olygfan gyntaf, ac yna ewch yn ôl yr un ffordd.

Trowch i'r chwith, yn ôl arno i'r trac hyd nes cyrraedd giât at gae ar ddiwedd y trac. Ewch trwy'r giât i gerddwyr ar y

chwith ac ewch yn syth ymlaen ar y llwybr sydd ar ymyl y cae, gyda'r clawdd ar y chwith, at ail olygfan. Yna, ewch yn ôl yr un ffordd.

Arhoswch yn y cae, a dilynwch y llwybr ar ymyl y cae gyda'r clawdd ar y dde, hyd nes cyrraedd giât ar y dde. I gyrraedd y drydedd olygfan, ewch yn syth ymlaen ar y llwybr amlwg ac yna ewch yn ôl yr un ffordd at y giât.

Ewch drwy'r giâtiau a dilynwch y llwybr caeedig o amgylch y gaer o'r Oes Haearn. Ar ôl y set nesaf o giâtiau, trowch i'r chwith tuag at Lwybr yr Arfordir, yna trowch i'r dde gan ddilyn y llwybr ar ymyl y cae, gyda'r môr ar y chwith.

Ewch drwy'r giât nesaf, croeswch y bont droed ac ewch yn syth ymlaen trwy giât arno i lwybr ar ymyl y cae at faes parcio St Martin's Haven.

Ewch yn ôl yr un ffordd.



